

Kyffin Williams – Llyfr Brasluniau Ynys Môn

18.02.17 -18.06.17



Mae'r arddangosfa *Kyffin Williams – Llyfr Brasluniau Ynys Môn* yn cynnwys detholiad helaeth o gasgliad Oriol Ynys Môn a dyma'r tro cyntaf i nifer o'r gweithiau hyn gael eu harddangos gyda'i gilydd.

Dywedodd y Cynghorydd Ken Hughes, "Cafodd Kyffin Williams ei eni yn Ynys Môn ac mae'n bleser gweld y gweithiau celf hyn gyda'i gilydd, gan eu bod yn rhoi cipolwg ar y lleoedd cyfarwydd a'r bobl oedd yn bwysig iddo."

Bu gan Kyffin Williams gysylltiad ag Ynys Môn drwy gydol ei fywyd. Hyd yn oed pan oedd yn byw yn rhywle arall roedd cymeriadau a safleoedd yr ynys yn ei ddenu'n ôl yn aml. Credai iddo gael ei swyno gan Ynys Môn pan oedd yn blentyn ac yn ddisgybl yn Ysgol Ddydd Trearddur.

Wrth iddo deithio o gwmpas yr ynys byddai'n llenwi ei lyfrau brasluniau â syniadau ac ysbrydoliaeth ar gyfer ei baentiadau. Creodd gannoedd o ddarluniau o'r ynys a nifer fawr o baentiadau. Nid oedd yn malio am y tywydd. Ysgrifennodd unwaith nad oedd yn teimlo'r oerni hyd yn oed pan fyddai allan yn braslunio yn y gaeaf gan ei fod yn ymgolli yn ei waith. Golygai hynny y gallai dreulio oriau yn braslunio yn yr awyr agored. Wedi dychwelyd i'w stiwdio byddai'n ail-greu'r darlun ar gynfas. Fel arfer roedd yn gorffen y paentiad mewn diwrnod.

Gan ei fod wedi braslunio'r ynys dros nifer fawr o flynyddoedd mae ei ddarluniau a'i baentiadau wedi cofnodi'r newidiadau niferus yn y dirwedd sy'n golygu bod peth arwyddocâd hanesyddol i'w waith. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn nodweddion cyn hanes yr ynys ac mae nifer o henebion Ynys Môn yn destun darluniau a phaentiadau ganddo. Mae'r arddangosfa hon o waith Kyffin, o gasgliad Oriol Ynys Môn, yn adlewyrchu ei ddiddordebau a'r lleoedd ar yr ynys oedd yn ei ddenu'n ôl dro ar ôl tro.

Mae'r Oriol ar agor o 10.30 am i 5.00 pm bob dydd ac mae mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â 01248 724444 / www.orielynysmon.info